

Yr uwch bartner

*“Pan ddaw’r Eiriolwr a anfonaf fi atoch oddi wrth y Tad, sef Ysbryd y Gwirionedd, sy’n dod oddi wrth y Tad, bydd ef yn tystiolaethu amdanaf fi.”
(adn. 26)*

Beth am ddarlenn Ioan 15:18–27 ac yna myfyrio

Un tro, drwy’r proffwyd Eseia, heriodd Duw Israel i sefyll dros ei hegwyddorion ac i fod yn dystion iddo yn nhreial y cenedloedd oedd yn gwatwar hawliau Duw fel yr unig Greawdwr ac Arglwydd. Dim ond Israel fyddai’n gallu gwirio hyn drwy roi ei thystiolaeth (gweler Eseia 43:9–13). Wrth i fywyd Iesu ar y ddaear ddirwyn i ben, gwelwn y sefyllfa’n cael ei gwrthdroi’n druenus: Israel, pobl Dduw ei Hun, sy’n amau pwy ydy’r Un mae Duw wedi ei anfon a’r hyn mae’n ei hawlio, ac mae Iesu, i bob diben, yn cael ei roi i sefyll ei brawf. Mae’n disgwyl i’w ddisgyblion dystiolaethu o’i blaid, gan eu bod wedi bod gydag ef “o’r dechrau” (adn. 27) a byddan nhw’n gallu adrodd yr holl hanes.

Doedden ni ddim yno yn y dechrau, ond fe’n galwyd ninnau i fod yn dystion iddo – i ychwanegu ein lleisiau a safon ein bywydau at y dystiolaeth barhaus i ryfeddod Iesu. Mae’n amlwg o’r darlenniad heddiw mai’r Ysbryd Glân sy’n cael ei ystyried fel prif dyst Iesu. Pan fyddwn yn tystio i Grist, byddwn yn ychwanegu ein lleisiau at lais yr Ysbryd Glân. Mae cysur ac eiriolaeth awdurdodol yr Ysbryd Glân yn cael ei addo i’n cynnal i ddwyn tystiolaeth i bwy ydy Iesu mewn gwirionedd, sef Mab Duw yn y cnawd, un Gwaredwr ac un Arglwydd pawb.

Dydy disgyblion byth yn tystiolaethu ar eu pen eu hunain, na heb help neb. Gymaint mwy effeithiol fydden ni pe baen ni’n cofio bod llais arall heblaw ein llais ni yn siarad drwy bob tystiolaeth a rown am Iesu. Felly, mae’n rhaid edrych ar dystiolaethu fel partneriaeth – yn ein tystiolaeth rydyn ni’n dweud yr hyn mae’r Ysbryd Glân yn dyheu’n angerddol am ei ddatgelu.

Beth am fynd ymlaen i ddarlenn:

1 Cor. 2:6–16; 2 Cor. 1:18–22; Heb. 1:1–4; 2:1–4

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut mae Paul yn disgrifio gwaith yr Ysbryd Glân?
2. Yn ôl Hebreaid, ym mha ffyrdd roedd iachawdwriaeth yn cael ei chyhoeddi?

Gweddi

O Dad, dyna gysur ydy gwybod nad ydy’r Ysbryd Glân byth yn oddefol pan ydw i’n tystiolaethu i Iesu, ond mae’n gweithredu’n ogoneddus ac yn wych. Na foed i mi fyth golli cyfle i siarad am f’Arglwydd. Amen.